Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Ann Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

04 Chwefror 2021

Annwyl Ann

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 / cynllun gweithredu adferiad COVID**

Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom **ysgrifennu** at Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, yn rhinwedd ei swydd yn cydlynu gwaith adferiad Cymru yn sgil pandemig COVID-19.

Yn ystod y **cwestiynau** i’r Cwnsler Cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Tachwedd 2020, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod ei gyfrifoldebau ef o ran adferiad ar ôl COVID “wedi dod i ben gyda chyhoeddi'r cynllun gweithredu ar ddechrau mis Hydref”.

Fel Pwyllgor, roeddem yn synnu nad oedd y cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau llwyddiant y cynllun gweithredu yn dod o fewn cylch gwaith Gweinidog penodol ac felly fel **ysgrifennom** at y Prif Weinidog yn dilyn hynny i ofyn am eglurhad.

Yn ei **ymateb**, dywedodd y Prif Weinidog:

> “Mae’n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn bwrw ymlaen ag adfer yn sgil Covid ac nad yw’r adferiad yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i un Gweinidog yn unig. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adfer yn ymestyn ar draws ein holl swyddogaethau fel llywodraeth, yn awr ac yn y dyfodol.”

Er ein bod yn cydnabod yr ymagwedd gyfunol hon, mae’r Pwyllgor yn bryderus iawn nad oes unrhyw Weinidog penodol yn uniongyrchol atebol am y gwaith adferiad ar ôl COVID. Heb fod y rôl gyffredinol hon ar waith, mae’r Pwyllgor wedi ei chael hi’n heriol gwneud **gwaith craffu effeithiol ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru**, cyllideb sydd, heb os, wedi cael ei heffeithio gan yr ansicrwydd parhaus sy’n deillio o bandemig COVID-19.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Gan mai’r disgwyl yn eang yw y bydd y pandemig COVID-19 yma am gryn amser ac y bydd yn cael effaith sylweddol ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu cyllid ac adnoddau yn y dyfodol, mae’r Pwyllgor yn pryderu nad oes cyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau y gweithredir y cynllun adfer yn llwyddiannus.

Gan nad yw gwaith monitro cynllun adferiad COVID yn dod o dan gylch gwaith un Gweinidog penodol, byddem yn awgrymu mai eich Pwyllgor chi sydd yn y sefyllfa orau i graffu ar y Prif Weinidog ar y dull strategol a gymerir o ran adferiad ar ôl COVID yn ei rôl arwain ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech nodi ein pryderon gyda’r Prif Weinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror 2021.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.